

## Cynllun Gweithredu yn dilyn Ymweliad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

### Ward Crug, Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog

	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Canlyniad</b>
<b>1</b>	<p><b>Llenni</b> Cyfarfu rheolwr y ward â'r rheolwr cyfleusterau ar 03.05.12 yn Ward Crug. Bydd yn trefnu i gael gosod llenni tafladwy o amgylch ardal y gwely cyn gynted â phosibl, tra ein bod ni'n aros i archebu a derbyn llenni parhaol. Mae'n ymddangos mai llenni ffenestr sydd wedi eu gosod o amgylch rhai o'r gwelyau ar hyn o bryd, a dyna sy'n egluro pam y maent yn fyr. Bydd y Rheolwr Cyfleusterau hefyd yn chwilio am lenni ffenestr newydd ar gyfer ystafell 5 gan nad yw'r rhai sydd yno yn ffitio'n iawn.</p>	Rheolwr Cyfleusterau Rheolwr y Ward	I'w adolygu erbyn 11.05.12	Newidir y llenni fel eu bod yn ffitio'n iawn.
<b>2</b>	<p><b>System Dolen Sain Gludadwy</b> Adroddwyd nad oedd rhai aelodau staff ar Ward Crug yn ymwybodol o'r system dolen sain gludadwy a oedd wedi ei sefydlu ar y ward. Dylai rheolwr y ward sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei lledaenu / cyfathrebu i'r holl staff sy'n gweithio ar Ward Crug, er mwyn sicrhau nad yw'r rhai hynny sydd â nam ar y synhwyrâu yn cael eu gadael i deimlo'n ynysig ac yn ddryslud.</p>	Rheolwr y Ward	31.05.12	Sicrheir bod yr HOLL staff yn ymwybodol o'r system dolen sain gludadwy.
<b>3</b>	<p><b>Bathodynnau Adnabod</b> Bydd Rheolwr y Ward yn sicrhau bod y staff yn gwisgo eu bathodynnau adnabod bob amser.</p>	Rheolwr y Ward	11.05.12	Bydd y staff yn gwisgo eu bathodynnau adnabod bob amser.
<b>4</b>	<p><b>Gwres</b> Bu problemau yn y gorffennol ynglŷn â'r ffaith fod y ward yn 'rhy boeth'. Dywed rheolwr y ward wrthyf fod hyn wedi ei ddatrys erbyn hyn, ac nad yw'n broblem mwyach.</p>	Rheolwr y Ward		Datryswyd 04.05.12